Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**
—
Welsh Parliament
**External Affairs and Additional Legislation Committee**

Vaughan Gething AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

22 Mawrth 2021

Annwyl Vaughan

**Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid**

Rwy'n ysgrifennu er mwyn rhoi casgliadau'r Pwyllgor i chi, ar ôl iddo ystyried Cytundeb Amlinellol y Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.

Rwyf yn amgáu gyda'r llythyr hwn bapur byr sy'n amlinellu ein casgliadau. Mae'r papur hwn hefyd yn cynnwys nifer o bwyntiau y byddem yn gwerthfawrogi cael eich ymateb iddynt.

Hoffwn ddiolch i Lywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd am y modd agored ac adeiladol y maent wedi ymateb i'n gwaith craffu ar y Fframwaith dros dro hwn hyd yma.

Yng ngoleuni'r amser cyfyngedig sydd ar ôl gennym yn y Senedd bresennol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn 31 Mawrth 2021, os yw hynny'n bosibl.

Rwyf wedi anfon copi o'r ohebiaeth hon at y sawl a ganlyn: Prif Weithredwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd; Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi; Cadeirydd Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin; Cynullydd Pwyllgor Iechyd a Chwaraeon Senedd yr Alban; a Chadeirydd Pwyllgor Swyddfa Weithredol Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Yn gywir,

David F. Rees.

David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddMADY@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEAAL@senedd.wales
0300 200 6565

# Atodiad A

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi barn y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y Fframwaith ar Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn dilyn ei waith craffu cychwynnol.

2. Yn gyntaf, byddwn yn gwneud sylwadau ar y broses o graffu ar y fframwaith. Yna, byddwn yn troi at ei sylwedd.

## Craffu ar y Fframwaith hwn

3. Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd am ymgysylltu'n adeiladol â'n gwaith craffu ar y Fframwaith dros dro.

4. Nid yw'r Fframwaith dros dro yn rhoi ystyriaeth i ddatblygiadau perthnasol sylweddol, fel deddfu o ran Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE, Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020, a'r drafodaeth barhaus ynghylch cyfeirio at rwymedigaethau rhyngwladol y DU mewn dogfennau fframwaith.

5. Nodwn fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cydnabod y bydd angen diwygio'r fframwaith er mwyn rhoi ystyriaeth i'r datblygiadau hyn.

6. Hoffem godi pryder penodol sydd gennym ni ynghylch effaith Deddf y Farchnad Fewnol ar y fframwaith. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, byddai'r egwyddorion mynediad i'r farchnad yn y Ddeddf yn gymwys mewn rhai achosion i bolisïau sy'n ymwahanu ac y cytunwyd arnynt drwy'r fframwaith hwn. Nid yw hyn yn gyson â'r egwyddor y cytunwyd arni gan Gydbwyllgor y Gweinidogion (Trafodaethau'r UE), sef y dylai fframweithiau cyffredin alluogi'r farchnad fewnol i weithredu tra'n cydnabod polisïau sy'n ymwahanu. Nodwn fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi awgrymu ei bod yn bosibl y bydd angen cynnwys cam ychwanegol yn y fframwaith er mwyn ystyried a ddylai'r egwyddorion mynediad i'r farchnad fod yn gymwys mewn achosion lle cynigir polisïau sy'n ymwahanu. Rydym o'r farn bod hyn yn hanfodol.

7. Er ein bod yn deall yr angen i gytuno ar fframwaith dros dro, byddem yn rhybuddio Llywodraeth Cymru rhag cadarnhau y Fframwaith yn derfynol hyd nes bod goblygiadau'r datblygiadau hyn wedi'u hasesu, a hyd nes bod y fframwaith wedi'i ddiwygio yn unol â hynny.

8. O ystyried y newidiadau sylweddol y mae angen eu gwneud i'r Fframwaith dros dro, rydym o’r farn y dylai’r Senedd gael cyfle i graffu ar y fersiwn ddiwygiedig o'r Fframwaith wedi i Gydbwyllgor y Gweinidogion (Trafodaethau'r UE) (neu fforwm rhynglywodraethol cyfatebol) gytuno arni dros dro, ond cyn cytuno’n derfynol ar y fersiwn ddiwygiedig hon.

9. Rydym hefyd yn disgwyl i'r Senedd gael gwybod am unrhyw adolygiad o'r Fframwaith, ac am ganlyniad unrhyw adolygiad. Mae hyn yn gymwys i'r pwyntiau adolygu a bennir yn y Fframwaith dros dro ac unrhyw adolygiad arall a allai gael ei gynnal.

10. Rydym yn cefnogi'r argymhellion a wnaed gan y pwyllgorau yn Nhŷ'r Arglwyddi a Senedd yr Alban i'w Gweinidogion perthnasol, sef y dylai'r fframwaith ddarparu'n benodol ar gyfer cyhoeddi adroddiad blynyddol y Grŵp Rheoli Fframweithiau.

11. Byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu’r canlynol:

- **y cynnydd sy’n cael ei wneud tuag at gytuno’r cam o ddiwygio'r fframwaith er mwyn darparu bod adroddiad blynyddol y Grŵp Rheoli Fframweithiau yn cael ei osod gerbron y Senedd;**
- **eich ymateb i'n barn y dylai fersiwn ddiwygiedig o'r Fframwaith dros dro gael ei darparu i'r Senedd at ddibenion craffu pellach unwaith y bydd trafodaethau ynghylch y datblygiadau diweddar yn cael eu hymgorffori, a’r amserlen ar gyfer unrhyw ddiwygiadau; a**
- **sut y byddwch yn rhoi gwybod i’r Senedd am ganlyniad pob adolygiad o'r Fframwaith yn y dyfodol.**

12. Serch hynny, mae modd inni wneud rhai sylwadau ynghylch y fframwaith ei hun ar sail ein gwaith craffu cychwynnol. Trown yn awr at y sylwadau hyn.

## Tryloywder

13. Mae'r fframwaith yn nodi sut y bydd Llywodraethau a chyrff diogelwch bwyd yn cydweithio i wneud penderfyniadau yn ei gylch. Bydd goblygiadau sylweddol a phellgyrhaeddol i bobl a busnesau yng Nghymru yn sgil y penderfyniadau hyn.

14. Mae'r fframwaith yn cydnabod y dylai'r broses weithredu'n dryloyw. Fodd bynnag, nid yw'n egluro'n glir sut y bydd rhanddeiliaid a dinasyddion yn gallu bwydo i mewn i'r prosesau gwneud penderfyniadau y mae'n cyfeirio atynt.

15. Credwn y dylai'r fframwaith nodi sut y bydd rhanddeiliaid a dinasyddion yn gallu bwydo i mewn i'r prosesau gwneud penderfyniadau y mae'n eu sefydlu.

## Gweithredu a llywodraethu

16. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi ymgymryd â swyddogaethau newydd sylweddol yng Nghymru wedi i'r DU ymadael â'r UE.

17. Mae'r fframwaith yn darparu bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gwneud argymhellion rheoli risg i Gymru mewn perthynas â dulliau cyffredin neu ddulliau sy'n ymwahanu. Os bydd anghydfod yn codi ar lefel swyddogol ynghylch a yw achosion o ymwahanu rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU yn briodol, gellir uwchgyfeirio'r mater dan sylw i Weinidogion Cymru.

18. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn adran anweinidogol yn Llywodraeth y DU. Penodir y mwyafrif o aelodau bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn Llywodraeth y DU. Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i benodi un aelod o'r Bwrdd. Mae'r Aelod Bwrdd dros Gymru yn cadeirio Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru.

19. Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro'r materion a ganlyn:

- **pa sicrwydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael bod gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ddigon o gapasiti ac annibyniaeth i wneud argymhellion rheoli risg priodol ar gyfer Cymru; a**
- **sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd i benderfynu ym mha sefyllfaoedd y mae cael polisïau sy'n ymwahanu yn briodol.**

## Cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol

20. Mae deddfwriaeth yr UE sy'n cael ei chywiro o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru ar hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, yn hytrach na phwerau cydredol.

21. Er bod y fframwaith yn fframwaith anneddfwriaethol, yn ymarferol, mae'n gosod gofynion ychwanegol ar y broses o arfer cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol, yn yr ystyr ei fod yn destun newidiadau arfaethedig i'r prosesau y mae'n eu nodi.

22. Mae'r fframwaith hefyd yn nodi bod y Llywodraethau yn ystyried rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau mewn meysydd penodol o bolisi yn ymwneud â hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, a hynny gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Byddai pwerau cydredol o'r fath yn sefydlu swyddogaethau Gweinidog y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

23. Byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi eich barn ynghylch a oes angen pwerau cydredol yn y maes polisi hwn.